# Melin Bompren



## Beth yw e?

- Melin ŷd ydyw. Adeiladwyd y felin rhwng 1852 a 1853.
- Adeiladwyd y felin hon yn Cross Inn, ger Cei Newydd, Ceredigion, ond roedd cannoedd o felinau tebyg ledled Cymru.



## Pwy oedd yn byw yma?

- Benjamin Jones oedd y melinwr cyntaf, ond mae nifer o felinwyr wedi gweithio yma dros y blynyddoedd.

## Ffeithiau difyr

- Roedd pobl gyfoethog y cyfnod yn dueddol o fwyta bara a wnaethpwyd gyda blawd gwyn tra mai blawd cyflawn ddefnyddiwyd gan y trigolion tlotach.
- Adeiladwyd melinau ger afonydd neu nentydd fel arfer, gan mai dŵr oedd yn gyrru'r mwyafrif ohonynt.
- Defnyddiwyd y felin hon i falu gwenith i wneud blawd, ond roedd hefyd yn malu ceirch a barlys ar gyfer bwyd anifeiliaid.
- Mae odyn sychu ŷd ynghlwm wrth y felin. Roedd ei hangen oherwydd yr hinsawdd laith.
- Gweithredwyd olwyn ddŵr y felin drwy ryddhau'r dŵr ar y top fel bod pwysau'r llwyau'n troi'r olwyn.
- Roedd yr olwyn ddŵr yn gyrru nifer o beiriannau eraill yn y felin, yn cynnwys teclyn i godi sachau o wenith er mwyn eu storio.

## Am ragor o wybodaeth?

- Ewch i weld Oriel 1 i ddarganfod sut fywydau oedd gan drigolion Cymru yn y gorffennol.
- Ewch i weld Rhyd-y-car (41) i gael blas ar fywyd mewn tref ddiwydiannol yn y cyfnod hwn.